

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Salon Harddwch Bodywise, Y Barri

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mehefin 2025

Dyddiad cyhoeddi: 17 Medi 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80633-400-1

© Hawlfraint y Goron 2025

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Salon Harddwch Bodywise, 54 Holton Road, Y Barri, CF63 4HE ar 17 Mehefin 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Salon Harddwch Bodywise yn rhoi profiad croesawgar i gleifion mewn amgylchedd cyfforddus, ond gall diffyg clo ar ddrws yr ystafell drin effeithio ar breifatrwydd cleifion wrth iddynt newid neu yn ystod triniaethau.

Roedd cleifion yn cael ymgynghoriad llawn ac yn cael gwybodaeth briodol cyn y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Fodd bynnag, prin oedd y ddarpariaeth ar gyfer cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu drwy negeseuon testun awtomataidd ac adolygiadau ar-lein. Gwnaethom drafod opsiynau ar gyfer hysbysu cleifion am ymateb y clinig i'w hadborth.

Nodwyd gennym fod y clinig yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd ar y cyfan, ond nid oedd y toiled yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Cadw cofnodion gofal iechyd cynhwysfawr ar gyfer pob claf.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith a chwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Adolygu a diweddarw'r wybodaeth am y clinig i ddangos nad oes toiled hygyrch ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ymgynghoriadau a gaiff eu dogfennu'n gynhwysfawr sy'n cynnwys esboniad o risgiau a manteision y driniaeth
- Roedd ffurflen gydsyniad yn cael ei llofnodi yn ystod pob apwyntiad ar gyfer triniaeth
- Gofynnir am adborth gan gleifion drwy neges destun ar ôl iddynt gael triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn lân ond nid oedd y llawr wedi gorffen cael ei osod ac roedd nifer o eitemau yn peri risgiau mewn perthynas â rheoli heintiau yn yr ystafell drin Goleuni Pwls Dwys (IPL). Nid oedd cyfleusterau golchi dwylo yn nholed y clinig.

Roedd y gwiriadau o'r gosodiadau trydanol a nwy yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd yr ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac nid oedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y pwnc hwn.

Er bod contract ar waith â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac asesiad risg laser/Goleuni Pwls Dwys (IPL) ar gael yn y practis, roedd angen adolygu'r protocolau (meddygol) proffesiynol. Er bod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael, nid oedd rhywfaint ohono yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y rheolau lleol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Sicrhau protocolau (meddygol) proffesiynol cyfredol
- Darparu tystiolaeth i ddangos bod y peiriant IPL yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd
- Cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf
- Rhoi eitemau newydd yn y pecyn cymorth cyntaf
- Tynnu'r gorchudd cnu halogedig oddi ar y gwely a symud y potyn meddalw cwyr o'r ystafell glinigol
- Staff i gwblhau hyfforddiant perthnasol ar atal a rheoli heintiau
- Staff i gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y llawr mewn cyflwr da er mwyn dileu unrhyw beryglon posibl o faglu a risgiau rheoli heintiau
- Adolygu'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'r clinig
- Dylai pob aelod o'r staff anghlinigol gwblhau hyfforddiant priodol ar ddiogelu
- Cofnodi gwiriadau peiriant IPL dyddiol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd asesiad risg tân dilys, profion gwifrau sefydlon a Phrofion Offer Cludadwy ar waith
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig sy'n rhedeg Salon Harddwch Bodywise gyda thîm bach o staff. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus dilys ar waith. Roedd amrywiaeth o bolisiau ar waith i helpu'r staff i gyflawni eu dyletswyddau. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth wedi'i llofnodi bod y staff wedi darllen a deall y polisiau hyn.

Roedd gweithdrefn briodol ar waith ar gyfer cwynion ysgrifenedig, ond dywedwyd wrthym nad oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion hyd yma.

Er bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), nid oedd y dystysgrif hon ar gael ar gyfer unrhyw aelod arall o'r staff a gaiff ei gyflogi yn y clinig.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Cynnal gwiriadau DBS ar y staff a gaiff eu cyflogi yn y clinig
- Dylai'r gweithredwr gwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth cyfredol ar gyfer laserau a pheiriannau IPL.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos tystysgrif gofrestru AGIC lle y gellir ei gweld yn hawdd
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r polisiau i gadarnhau ei fod wedi eu darllen a'u deall.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolwr cofrestredig brwdfrydig, cyfeillgar a phrofiadol
- Ymateb yn gadarnhaol i adborth ac awgrymiadau a wnaed yn ystod yr arolygiad
- Tystiolaeth o hyfforddiant clinigol perthnasol ychwanegol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Urddas a pharch

Roedd un ystafell drin IPL wedi'i lleoli ar lawr gwaelod y clinig. Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion newid yn yr ystafell drin. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw glo ar ddrws yr ystafell drin i alluogi'r cleifion i newid yn breifat.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig osod clo ar ddrws yr ystafell drin i alluogi'r cleifion i newid yn breifat ac i ddiogelu'r ystafell yn ystod triniaethau.

Roedd tywelion papur ar gael i'r cleifion eu defnyddio yn ystod triniaeth i ddiogelu eu hurddas. Cynhaliwyd ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafelloedd trin i sicrhau cyfrinachedd y cleifion. Nid oedd y gwasanaeth yn cynnig hebryngwyr, ond caniateir i'r cleifion ddod â rhywun gyda nhw.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom ddarllen y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd i ni gan y rheolwr cofrestredig ac roedd y rhain yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd rhestr brisiau ar wahân hefyd ar gael yn y dderbynfa.

Nid oedd unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn y clinig, ac nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyfieithu. Ni chawsom sicrwydd y byddai hyn yn galluogi'r cleifion i ddeall eu triniaeth yn ddigonol er mwyn rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig bod angen iddo ddod o hyd i wasanaeth cyfieithu priodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau y gall y clinig ddiwallu anghenion unigol y cleifion a all fod am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu ieithoedd eraill.

Gellid trefnu ymgynghoriadau ac apwyntiadau ar gyfer triniaeth yn bersonol ger y dderbynfa, dros y ffôn neu drwy ap rheoli apwyntiadau'r clinig.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Gwnaethom ofyn am gael gweld y gofrestr o driniaethau fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd cofrestr o'r fath ar waith am fod y wybodaeth yn cael ei chofnodi yng nghofnodion unigol cleifion. Gwnaethom drafod rhoi cofrestr triniaethau ddynodedig ar waith sy'n benodol i'r peiriant IPL. Darparwyd templed o'r gofrestr i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod ffurflen ymgynghori gychwynnol wedi cael ei chwblhau ynghyd â gwiriad hanes meddygol a ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi gan bob claf. Roedd newidiadau i hanes meddygol yn cael eu gwirio ym mhob apwyntiad dilynol. Fodd bynnag, roedd yn anodd deall y system cofnodion ac roedd yn rhaid dibynnu ar y gweithredwr i gofio pa gleifion oedd wedi cael triniaethau IPL. Nid oedd un o'r cofnodion yn cynnwys unrhyw fanylion, ac roedd gwybodaeth anghyflawn nad oedd yn glir yn y cofnodion eraill. Nid oedd y cofnodion a welsom yn cynnwys gwybodaeth am nifer y dosau a pharmedrau'r driniaeth. Roeddem o'r farn nad oedd y manylion yn ddigon manwl a bod angen eu gwella.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Roedd polisi cydsynio ar gael ar adeg yr arolygiad.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaethau a oedd yn cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r manteision a'r canlyniadau disgwyledig. Dywedwyd wrthym fod canllawiau ar ôl-ofal yn cael eu darparu i'r holl gleifion. Er i ni gael sicrwydd bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth, gwnaethom drafod y dylid sicrhau bod cyngor ysgrifenedig yn cael ei roi cyn y driniaeth hefyd.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen, a bod asesiad graddio croen a gwiriad gweledol am niwed i'r croen yn cael eu cynnal cyn dechrau cwrs o driniaeth er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd o unrhyw adweithiau niweidiol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio, a bod pob aelod o staff a chlaf yn cael ei drin yn deg. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ar adeg yr arolygiad, a ni ddaethom o hyd i dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith a sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Roedd mynediad gwastad i'r adeilad o'r stryd a lloriau gwastad drwy'r clinig i helpu cleifion ag anawsterau symudedd. Dywedwyd wrthym fod y toiled ar gyfer y staff yn unig, ond y gallai'r cleifion ei ddefnyddio mewn argyfyngau. Fodd bynnag, roeddem o'n farn nad oedd y toiled hwn yn hygyrch oherwydd ei gynllun a'r diffyg cyfleusterau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben i hysbysu'r cleifion am sefyllfa'r toiled yn yr adeilad.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym y gofynnwyd am adborth gan gleifion ar ôl eu triniaeth drwy neges destun. Roedd adborth yn cael ei gasglu drwy adolygiadau ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y clinig hefyd.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei asesu a'i ddadansoddi'n barhaus. Gwnaethom drafod sut y gall y rheolwr cofrestredig ystyried hysbysu'r cleifion am gamau gweithredu'r clinig yn dilyn adborth, fel arddangos hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn y clinig ac ar y wefan.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn allanol, a bod mesurau diogelwch addas ar waith i atal mynediad heb awdurdod. Roedd y clinig yn cynnwys derbynfa ac ardal aros ynghyd ag ystafelloedd trin ar wahân ar gyfer triniaethau IPL a'r gwasanaethau eraill a gynigir. Roedd yr ystafell drin IPL yn ymddangos yn gyfforddus ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y llawr lamineiddiedig wedi cael ei orffen mewn sawl ardal a'i fod yn peri risg o faglu a risg rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wrthi'n gosod llawr newydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y llawr mewn cyflwr da er mwyn dileu unrhyw beryglon posibl o faglu ac i wneud yn siŵr y gellir rhoi prosesau rheoli heintiau effeithiol ar waith.

Gwelsom fod yr Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) a gynhelir bob pum mlynedd a'r Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn ddiweddar. Roedd tystysgrif diogelwch nwy gyfredol ar gael.

Gwnaethom edrych ar drefniadau diogelwch tân y clinig a oedd yn cynnwys asesiad risg tân cyfredol. Er bod arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân, a bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nid oedd cynllun gweithredu i'w weld, a nodwyd gennym fod clo ar giât yr iard gefn. Roedd gwiriadau wythnosol o'r system larwm tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Arddangos cynllun gweithredu tân addas sy'n cynnwys y cod ar gyfer y clo i'r allanfa yng nghefn yr adeilad
- Sicrhau y caiff y cod ei arddangos ger yr allanfa yng nghefn yr adeilad hefyd
- Trefnu bod ymarferion gwagio'r adeilad mewn argyfwng tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chadw cofnodlyfr fel tystiolaeth ohonynt.

Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw un a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Nodwyd gennym fod asesiad risg lechyd a Diogelwch wedi cael ei gynnal ynghyd ag asesiad risg gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar ddefnyddio'r peiriant IPL.

Ni chawsom sicrwydd fod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau pe bai argyfwng, gan nad oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol. At hynny, er i ni nodi bod pecyn cymorth cyntaf ar gael, roedd dyddiad defnyddio'r holl gynnwys wedi'i ddiheintio wedi mynd heibio (2010).

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig brosesau glanhau clinigol addas ar gyfer y staff, y cyfarpar a'r ystafell drin. Fodd bynnag, nododd ein harsylwadau o'r clinig fod rhoi mwy o sylw i'r amgylchedd. Gwelsom fod gorchudd cnu ar y gwely trin a oedd wedi'i halogi ag olion olew, staeniau, llwch a malurion nad oedd modd eu dynodi. Gwelsom fod yr amserlenni glanhau yn nodi bod y gorchudd hwn yn cael ei olchi ddwywaith yr wythnos, sy'n golygu y byddai nifer o gleifion wedi bod mewn cysylltiad â'r halogyddion o bosibl. Roedd potyn meddalw cwyr lle roedd ei gynnwys wedi gorlifo ar arwyneb y cwpwrdd a staen ar wal yr ystafell drin ger y gwely trin hefyd.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwnaethom arsylwi ar y toiled a gwelsom nad oedd basn golchi dwylo yno. Dywedwyd wrthym y gallai'r staff a'r cleifion ddefnyddio'r sinc yn y gegin, ac roeddem o'r farn bod hyn yn amhriodol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael i'r staff a'r cleifion.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth o'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyfredol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd staff y clinig wedi cwblhau'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 12 oed a throsodd. Nododd ein trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig nad oeddent wedi trin unrhyw un o dan 18 oed hyd yma.

Gwelsom fod gan y clinig bolisi diogelu ar waith a oedd yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, roedd y clinig wedi benthylu y polisi hwn gan sefydliad arall ac roedd yn ymddangos ei fod yn cynnwys manylion cyswllt y sefydliad arall hwn a gwybodaeth am ardaloedd yng Nghymru nad oeddent yn gysylltiedig â'r clinig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'r clinig.

Gwnaethom edrych ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant diogelu. Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn, ond nad oedd y staff anghlinigol wedi'i gwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff anghlinigol yn cwblhau'r hyfforddiant diogelu priodol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant IPL yn cyfateb i'r peiriant sydd wedi'i gofrestru ag AGIC. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau diagnostig yn cael eu cynnal ar y cyfarpar a'r systemau IPL yn ddyddiol. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant IPL eu cynnal a'u cofnodi.

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ac roedd rheolau lleol cyfredol ar gael a oedd yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant IPL yn ddiogel.

Gwnaethom ofyn am gopi cyfredol o'r protocolau triniaethau meddygol ar gyfer y peiriant IPL a ddefnyddir yn y clinig. Ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu copi o'r protocolau hyn ar adeg yr arolygiad. At hynny, ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu dystiolaeth bod gwaith cynnal a chadw wedi cael ei gwblhau ar y peiriant IPL fel mater o drefn.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr IPL. Roeddent yn lân ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, nid oedd tri phâr o'r sbectolau amddiffyn y llygaid yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn y rheolau lleol. Nododd ymholiadau nad oedd y rhain yn briodol i amddiffyn y llygaid rhag IPL. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig orau i ddefnyddio'r rhain ar unwaith a chafwyd gafael ar oglau di-draidd ar gyfer y cleifion tan y gellid cael sbectolau priodol eraill.

Ymdriniwyd â'n pryder mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar amddiffyn y llygaid priodol ar gael bob amser ar gyfer y cleifion a'r staff.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos presenoldeb y peiriant IPL ac roedd trefniadau addas er mwyn sicrhau bod y peiriant IPL yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Nid oedd unrhyw system wedi'i dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried gwybodaeth sy'n berthnasol i'r diwydiant, gan gynnwys cwynion, archwiliadau clinigol, cyngor arbenigol ac adolygiadau cenedlaethol fel rhan o weithgareddau gwella ansawdd y clinig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth, a bod prosesau addas ar waith i sicrhau na chaiff unrhyw ddata personol eu colli. Gwelsom fod y cyfnodau cadw data a'r trefniadau gwaredu data yn briodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n rhedeg Salon Harddwch Bodywise gyda thîm bach o staff. Nododd ein harsylwadau o'r clinig fod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith a'u bod yn cael eu harddangos yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrif gofrestru AGIC ac amodau'r cofrestriad cysylltiedig yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystysgrif gofrestru AGIC a'r amodau cysylltiedig yn cael eu harddangos lle y gellir eu gweld yn hawdd.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiau a gweithdrefnau a oedd, ar y cyfan, yn briodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom fod y ddogfen rheoli fersiynau ar goll ar gyfer rhai o'r polisiau, fel y polisi Preifatrwydd. Gwnaethom drafod sicrhau bod dull rheoli fersiynau yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar gyfer pob polisi. Nid oedd unrhyw gofnod ar gael i ddangos bod staff y clinig wedi darllen a deall y polisiau hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r polisiau perthnasol i gadarnhau ei fod wedi eu darllen a'u deall.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith, gyda chrynodeb hefyd ar gael yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Dylai pob cwyn gael ei chofnodi mewn cofnod cwynion, ond dywedwyd wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw gwynion hyd yma.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Rhoddyd gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol i ni ar gyfer y rheolwr cofrestredig. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw wiriadau DBS mewn perthynas â'r aelodau eraill o staff a gaiff eu cyflogi yn y clinig.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedwyd wrthym mai'r rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr y peiriant IPL a gwelsom dystiolaeth ei fod wedi cael yr hyfforddiant perthnasol ar ddefnyddio'r peiriant IPL sydd yn y clinig. Gwnaethom hefyd ofyn am dystiolaeth o hyfforddiant craidd gwybodaeth cyfredol ar ddefnyddio peiriannau laser ac IPL. Dangoswyd

tystysgrif i ni a oedd yn nodi mai ym mis Mai 2018 y cafodd yr hyfforddiant ei gwblhau diwethaf, felly roedd angen cwblhau'r hyfforddiant gloywi.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd tri phâr o'r sbectolau amddiffyn y llygaid yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn y rheolau lleol.	Gallai cleifion wynebu risg posibl wrth ddefnyddio'r peiriant IPL.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd y cyfarpar amddiffyn llygaid ei symud ar unwaith a gwnaed cyfarpar amddiffyn llygaid addas ar gael i'r cleifion.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Salon Harddwch Bodywise

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ar unwaith i roi copi o'r protocolau (meddygol) proffesiynol diweddaraf i AGIC ar gyfer y peiriant IPL a ddefnyddir yn y clinig ar hyn o bryd.	Rheoliadau 45(1), Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Gweithiwr Meddygol Proffesiynol i ailysgrifennu'r Protocolau (meddygol) Proffesiynol. Bydd Lasermet yn darparu dogfennau o'r fath.	J Howells	Dylid llunio cytundeb â Lasermet erbyn 16/07/25, a llunio'r ddogfen o fewn 2-3 wythnos.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith ei fod yn cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth cyfredol a rhoi cadarnhad o'r trefniadau hyn i AGIC.	Rheoliad 45(3)	Cwblhawyd y cwrs ar 23/06/2025	J Howells	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r peiriant IPL yn y clinig gael ei wasanaethu ar unwaith a rhoi	Rheoliad 15(2)	Cafodd y peiriant ei wasanaethu ym mis Ionawr '25.	J Howells	Wedi'i gwblhau

tystiolaeth i AGIC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.		Gofynnwyd am y ddogfennaeth ar 21/06/2025		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd ysgrifenedig i AGIC y bydd yr holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion y cleifion yn cael ei chwblhau'n llawn ac yn gywir.	Rheoliad 23(1)(a)	Mae'r gofrestr cleifion wedi'i chwblhau.	J Howells	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith bod pob aelod o staff a gyflogir yn y clinig yn cael tystysgrif cofnodion troseddol a darparu copïau i AGIC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.	Rheoliad 21 (2) ac Atodlen 2, Paragraff 2 & 3	Mae gwiriad DBS ar gyfer y staff wedi'i drefnu.	J Howells	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith ei fod yn cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf a rhoi cadarnhad o'r trefniadau hyn i AGIC.	Rheoliad 20(2)(a)	Mae'r hyfforddiant cymorth cyntaf wedi'i drefnu. 3 Gorffennaf 2025	J Howells	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael gafael ar becyn cymorth cyntaf newydd ar unwaith.	Rheoliad 15(2)	Rwyf wedi archebu pecyn cymorth cyntaf.	J Howells	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r canlynol gael ei gyflawni ar unwaith: • Tynnu'r gorchudd cnu oddi ar y gwely trin a rhoi'r gorau i'w ddefnyddio • Symud y potyn meddalw cwyr o'r ystafell drin glinigol • Glanhau'r staen oddi ar wal yr ystafell drin	Rheoliad 15(8)	Mae'r gorchudd cnu wedi'i dynnu Mae'r potyn meddalw cwyr wedi'i symud Mae'r waliau wedi cael eu glanhau Mae gorchudd gwely y gellir ei sychu wedi cael ei archebu	J Howells	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith bod y staff yn cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau priodol a rhoi cadarnhad o'r trefniadau hyn i AGIC.	Rheoliad 20(2)(a)	Rydym wedi gwneud ymholiadau am gyrsiau rheoli heintiau	J Howells	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant priodol ar ddiogelwch tân cyn darparu mwy o driniaethau i'r cleifion.	Rheoliad 26(4)(c)	Mae hyfforddiant diogelwch tân wedi'i drefnu	J Howells	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Jackie Howells

Teitl swydd: Cyfarwyddwr

Dyddiad: 14/07/2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Salon Harddwch Bodywise

Dyddiad yr arolygiad: 17 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig osod clo ar ddrws yr ystafell drin i alluogi'r cleifion i newid yn breifat ac i ddiogelu'r ystafell yn ystod triniaethau.	Rheoliad 18(1)(a)	Mae clo wedi cael ei archebu ar gyfer drws yr ystafell drin. Rydym yn aros iddo gael ei osod	JH	Awst 25
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau y gall y clinig ddiwallu anghenion unigol y cleifion a all fod am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu ieithoedd eraill.	Rheoliad 15(1)(a)	Anfon e-bost ymgynghori cychwynnol cyn triniaeth i ofyn i'r cleifion a fyddai'n well ganddynt gael ymgynghoriad a thaflenni gwybodaeth mewn unrhyw iaith arall o'u dewis. Llunio copi o'r daflen driniaethau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd cyffredinol eraill	JH	Awst 25

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith a sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.	Safon - Tegwch	Dod o hyd i hyfforddiant ar gyfer y staff Llunio Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	JH	Awst 25
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben i hysbysu'r cleifion am sefyllfa'r toiled yn yr adeilad.	Rheoliad 6 a 7	Diweddarau'r daflen wybodaeth a sicrhau ei bod ar gael yn y salon	JH	Awst 25
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y llawr mewn cyflwr da er mwyn dileu unrhyw beryglon posibl o faglu ac i wneud yn siŵr y gellir rhoi prosesau rheoli heintiau effeithiol ar waith.	Rheoliad 26(2)(b)	Mae'r llawr bellach wedi'i gwblhau ac mae bariau drysau wedi'u gosod er mwyn dileu unrhyw beryglon o faglu	JH	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: • Arddangos cynllun gweithredu tân addas sy'n cynnwys y cod ar gyfer y clo	Rheoliadau 26(4)(b) a (d)	Llunio Cynllun Gweithredu Tân a'i arddangos yn y salon	JH	Awst 25

i'r allanfa yng nghefn yr adeilad - Sicrhau y caiff y cod ei arddangos ger yr allanfa yng nghefn yr adeilad hefyd - Trefnu bod ymarferion gwagio'r adeilad mewn argyfwng tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chadw cofnodlyfr fel tystiolaeth ohonynt.		Sicrhau bod cod y clo sydd ar y giât yng nghefn yr adeilad yn weledol ger yr allanfa Cynnal ymarferion tân		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael i'r staff a'r cleifion.	Rheoliad 26(2)(a)	Mae cyfleusterau o'r fath eisoes ar gael yn yr ystafell staff (nid yn y gegin) ac maent yn hygyrch i'r cleifion. Byddwn yn chwilio am sinc fach i'w gosod yn y toiled presennol	JH	Awst 25
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'r clinig.	Rheoliad 16	Adolygu'r polisi diogelu a sicrhau ei fod yn berthnasol	JH	Awst 25

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff anghlinigol yn cwblhau'r hyfforddiant diogelu priodol.	Rheoliad 20(2)(a)	Chwilio am hyfforddiant diogelu ar gyfer y staff	JH	Awst 25
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant IPL eu cynnal a'u cofnodi.	Rheoliad 15(2)	Llunio cofnod o'r arolygiadau er mwyn ei gwblhau bob tro y caiff y peiriant IPL ei ddefnyddio	JH	Parhaus
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar amddiffyn y llygaidd priodol ar gael bob amser ar gyfer y cleifion a'r staff.	Rheoliad 15(2)	Sicrhau bod y goglau yn rhai sy'n benodol ar gyfer triniaethau IPL a bod marciau arnynt i nodi eu diben	JH	Awst 25
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 19	Adolygu'r gwasanaethau a ddarperir yn erbyn y rheoliadau i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus	JH	Parhaus
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystysgrif gofrestru AGIC a'r amodau cysylltiedig yn cael eu harddangos lle y gellir eu gweld yn hawdd.	Adran 28, Deddf Safonau Gofal 2000	Arddangos Tystysgrif AGIC	JH	Ar unwaith

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r polisïau perthnasol i gadarnhau ei fod wedi eu darllen a'u deall.	Rheoliad 9	Caniatáu i'r staff ddarllen y polisïau a chynnal trafodaeth grŵp i sicrhau eu bod yn eu deall Staff i lofnodi'r polisïau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen ac yn eu deall	JH	1 mis
--	------------	---	----	-------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jackie Howells

Swydd: Cyfarwyddwr

Dyddiad: 05/08/2025